# Rhaglen Gyllido Ein Lle Ni

## Adolygiad interim o'r cyfnod peilot



Ebrill 2015

Gŵyl Ffilm Cymru a'r Byd yn Un, Chapter (llun Jon Pountney)

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Rhagair

Mae Cyngor Celfyddydau yn teimlo'n angerddol a diymddiheuriad ynglŷn â'r celfyddydau. Rydym eisiau cefnogi'r celfyddydau gorau posibl, ac annog cymaint o bobl â phosibl i fwynhau a chymryd rhan mewn gweithgarwch creadigol. Rydym eisiau gweld pobl Cymru yn cael eu hysbrydoli gan gelfyddydau sy'n fywiog, ysgogol a deniadol – celfyddydau sy'n ymestyn allan i'n cyffwrdd; celfyddydau sy'n tanio ein dychymyg a'n creadigrwydd; celfyddydau sy'n ein herio i chwilio am well dealltwriaeth o'n byw a'n bod ac o'r byd o'n cwmpas.

Gall ein strategaeth i ddatblygu'r celfyddydau gael ei chrynhoi mewn dim ond tri gair:

## Creu    Cyrraedd    Cynnal

Mae gennym ddiddordeb yn y modd y mae'r ystyron hyn yn cyd-blethu, ac yn atgyfnerthu ei gilydd mewn un synnwyr o ddiben. Mae creu celfyddyd, sicrhau ei bod yn cysylltu â phobl a bod iddi waddol barhaol oll yn rhan o'r un darlun.

Bydd **Creu** yn dda yn golygu ein bod yn ysbrydoli. Ac wrth ysbrydoli, bydd pobl yn ei deall. Bydd pobl ei heisiau ac yn ei gwerthfawrogi. Felly mae'n rhaid inni ysbrydoli pobl Cymru i fwynhau a chymryd rhan yn y pethau gorau sydd gan ein cenedl i'w cynnig.

Mae hyn, felly, yn ganolog i'n gallu i **Gyrraedd**, ac yn allweddol, i gyrraedd yn bellach nag o'r blaen. Os bydd hyn yn golygu y caiff rhywbeth o werth ei greu o ran yr hyn sy'n cael ei wneud neu bwy sy'n dod i gyswllt ag ef, dylem ofyn sut mae **Cynnal** y pethau hyn mewn ffyrdd a fydd yn parhau.

Dyma uchelgeisiau praff. Ond rydym yn parhau i fod yn gadarn ymrwymedig i'n gweledigaeth o Gymru greadigol lle mae'r celfyddydau yn ganolog i fywyd y genedl. Wedi'r cyfan, mae'r celfyddydau yn rhoi lliw a bywyd i amrywiaeth eang o strategaethau sy'n sylfaen i fywyd cyhoeddus. O'r celfyddydau ac iechyd i dwristiaeth ddiwylliannol, ac o gelf gyhoeddus i adfywio canol tref, mae'r celfyddydau yn cynnig ystyr, dilysrwydd a mwynhad i'n bywydau bob dydd. Maent yn creu a chynnal swyddi, yn cyfoethogi gwasanaethau addysg, yn dwyn pobl ynghyd ac yn gwella ansawdd ein bywyd.

Ond er gwaethaf eu manteision amrywiol, gwyddom fod llawer o bobl yng Nghymru naill ai'n credu nad yw'r celfyddydau yn berthnasol iddynt hwy, neu'n wynebu rhwystrau cymdeithasol, ariannol neu ffisegol sy'n eu hatal rhag cymryd rhan.

Creu cyfleoedd i bobl gael mynediad i'r celfyddydau – neu chwalu rhai o'r rhwystrau hyn i gynnal cyswllt – yw prif waith beunyddiol llawer o sefydliadau'r celfyddydau yng Nghymru. Ond a ydym yn ddigon ymwybodol o'r strategaethau a'r technegau newydd a all gynnig hwb go iawn i strategaethau cyfarwydd i ddatblygu cynulleidfaoedd? A ydym yn gwybod pa rai sydd wedi datblygu dealltwriaeth a syniadau sy'n cynnig ffyrdd gwahanol i gynnal cyswllt â'r cynulleidfaoedd 'anodd eu cyrraedd', fel y'u gelwir? Dyma'r maes y mae rhaglen *Ein Lle Ni* am ei archwilio.

Ar adeg ysgrifennu'r rhagair hwn, mae'r rhaglen hanner ffordd drwyddi. O'r cychwyn, gwyddem y byddai'n bwysig iawn ein bod yn asesu a gwerthuso'r canlyniadau a ddaw i'r amlwg ac yn rhoi ystyriaeth i'r gwersi a ddysgwyd hyd yma. Yn hyn o beth, rydym yn ddyledus i ymgynghorwyr annibynnol Kirkhill Associates, am mai eu gwerthusiad sy'n darparu llawer o ddeunydd crai y cyhoeddiad hwn. Rydym hefyd am ddiolch i'r prosiectau sy'n cymryd rhan yn rhaglen *Ein Lle Ni*. Y maent wedi bod yn rhyfeddol o hael eu hadborth ac yn ddidwyll eu hasesiadau o'u prosiectau eu hunain. Rydym yn ddiolchgar iddynt am fod mor agored.

Yn olaf, yn y cyfnod peilot hwn, rydym wedi cadw *Ein Lle Ni* yn fwriadol mor agored â phosibl. Nid ydym eisiau barnu'r canlyniadau ymlaen llaw – rydym eisiau gweld arbrofi a syniadau newydd. Efallai y bydd rhai o brosiectau'r rhaglen yn 'methu'. Neu efallai nad oes y fath beth â rhywbeth newydd, ac mai'r ffyrdd cyfarwydd yw'r rhai gorau. Credwn y bydd prosiectau peilot *Ein Lle Ni* yn ateb rhai o'r cwestiynau hyn, a llawer rhagor.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Mawrth 2015

# Cyflwyniad

## Peilota ffyrdd newydd i gyflawni blaenoriaethau Cyngor y Celfyddydau

Lansiwyd Rhaglen Ymgysylltu *Ein Lle Ni* gan Gyngor Celfyddydau Cymru ym mis Rhagfyr 2012. Yn y cyfnod rhwng Ionawr 2013 a Rhagfyr 2014, dyfarnwyd cyllid i 10 prosiect gan 8 sefydliad fel rhan o'r rhaglen.

Roedd datblygu rhaglen *Ein Lle Ni* yn cyd-redeg ag adolygiad ehangach o'n strategaethau i ddatblygu'r celfyddydau. Er ein bod yn hyderus ynglŷn â'n gwaith o eirioli dros weithgarwch sy'n rhagorol yn artistig, nid oeddem mor siŵr a oeddem yn helpu cynulleidfa ehangach i brofi'r gwaith hwn.

Ffactor arall a ddylanwadai ar ein hymagwedd oedd tystiolaeth gynyddol bod arian cyhoeddus yn tynhau. Deuai'n fwyfwy amlwg na allai sefydliadau'r celfyddydau dybio y gallai cyllidwyr cyhoeddus gynnal y lefelau presennol o gyllid i'r celfyddydau. Byddai sefydliadau gofalus yn ceisio lleihau eu dibyniaeth ar arian cyhoeddus. Drwy ddatblygu ffynonellau incwm newydd a chryfhau cysylltiadau a'u cymunedau lleol (sut bynnag y gellid diffinio 'cymuned'), y gobaith yw y byddai sefydliadau yn dod yn fwy cadarn a chynaliadwy yn y tymor hir. Lluniwyd *Ein Lle Ni* yn rhaglen beilot i 'brofi' rhai o'r syniadau newydd hyn.

## Cydweddu'r rhaglen gyllido â pholisi a strategaeth

Roedd yr holl faterion hyn yn sylfaen i ddatblygu ein strategaeth newydd ar gyfer y celfyddydau, *Ysbrydoli: creadigrwydd a'r celfyddydau...* Lansiwyd *Ein Lle Ni* dros flwyddyn cyn inni gyhoeddi *Ysbrydoli.* Er hynny, credwn fod *Ein Lle Ni* yn ateb nifer o heriau creadigol y Strategaeth yn uniongyrchol:

- *Gwneud Mwy o Adeiladau'r Celfyddydau*. Mae chwech o'r wyth sefydliad a dderbyniodd arian yn seiliedig ar adeilad, ac mae un o'r lleill, Theatr Iolo, wedi seilio ei brosiect ar wella sut y gall gydweithio â lleoliadau. Mae *Ein Lle Ni* wedi cychwyn ar ddadleuon diddorol ynglŷn â 'pherchnogaeth' lleoliadau, a sut mae sicrhau bod yr amrywiaeth ehangaf o ddefnyddwyr yn eu cael yn 'Drydydd Lleoedd' hygyrch.

- *Mwy o bobl yn creu, mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau.* Gellid dweud yn effeithiol bod yr her hon wedi rhoi 'is-bennawd' i'n rhaglen *Ein Lle Ni*. Gwyddwn o gael cyfleoedd gwirioneddol i gynnal cyswllt arwyddocaol gyda'r gymuned, peth prin yw i bobl beidio ag ymateb i'r cyfleoedd hynny a deall yn well y manteision y gall y celfyddydau gynnig i'w bywydau.

- *Rhoi Cymunedau yn Gyntaf.* Rydym eisiau gweld sefydliadau celfyddydol allweddol Cymru yn gwreiddio, ac yn cysylltu â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn bwysig ynddo ei hun. Ond y mae hefyd yn helpu'r celfyddydau i gyfrannu at flaenoriaethau Tlodi Plant a Theuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru.

- *Gwneud lleoedd newydd.* Mae'r pwyslais yma ar 'fodelau newydd o fenter, cydlyniad cymdeithasol a lles i gymunedau'. Mae'r prosiectau a gyflawnir gan Llantarnam Grange, Celf, WOW/Chapter, ac o leiaf o ran bwriad – Redhouse – oll yn ceisio mynd i'r afael â hyn yn benodol, ac y mae hefyd yn rhan o'r prosiectau a gynhelir gan Bontardawe, Theatr Iolo a Theatr Brycheiniog.

## Dysgu o'n profiad

Aeth ymgynghorwyr annibynnol Kirhill Associates ati i adolygu llwyddiant y rhaglen beilot. Eu gwerthusiad trwyadl a manwl sy'n sail i'r wybodaeth a amlinellir yn y ddogfen hon.

Nid yw hwn yn werthusiad ffurfiol o'r rhaglen. Ar hyn o bryd rydym eisiau rhannu ychydig o'r gwersi cynnar ac felly mae'r cynnwys sy'n dilyn wedi ei gyflwyno gyda'r nod hwnnw mewn golwg.

## Amlinelliad o'r hyn a anelwn ato

### Ffordd newydd i ariannu gweithgarwch creadigol

Nod y Rhaglen oedd cyrraedd at gynulleidfaoedd newydd a pherswadio mwy o bobl i fwynhau a chymryd rhan yn y Celfyddydau. Wrth hybu a rheoli'r rhaglen roeddem yn awyddus i annog syniadau dychmygus ac arloesol. Ond yn ogystal â'r amcanion celfyddydol a chymdeithasol, roeddem hefyd eisiau peilota ffyrdd gwahanol i gynnal a rheoli rhaglen ariannu. Felly un o'r camau a gymerwyd gennym oedd symleiddio'r broses ymgeisio gymaint â phosibl.

Nid yw *Ein Lle Ni* wedi gofyn am unrhyw ffurflen gais, ac roedd yn cynnig proses barhaus o ddyfarniadau heb heb ddyddiadau cau. Mae hefyd wedi rhoi'r cyfle i ymgeiswyr gynnig am un neu ddau o ddau gam – ymchwil a datblygu, ac ymchwil gweithredu.

### Meddwl o'r newydd, syniadau newydd

Roedd yr arweiniad a roddwyd yn pwysleisio y byddai cael cynigion dychmygus, cyffrous ac arloesol yn ddymunol, ond pwysleisiwyd hefyd nad oeddem yn chwilio am ateb cyflym, ond ateb am y tymor hir. Roeddem eisiau annog mwy o bobl i gymryd rhan yn y celfyddydau a'u denu'n ôl. Blaenoriaeth amlwg oedd prosiectau yn targedu plant a phobl ifanc, a theuluoedd. Bu i ni hefyd dynnu sylw at ein diddordeb mewn prosiectau wedi'u seilio ar gydweithrediad a phartneriaeth greadigol a phrosiectau a anelai at amcanion cyraeddadwy a chynaliadwy.

Roedd y broses ymgeisio yr un mor syml. Roedd gan yr ymgeiswyr le i ffurfio eu cynigion yn eu ffordd eu hunain, cyhyd â'u bod wedi eu cyfyngu i 4 ochr o bapur A4. Roedd gofyn iddynt gynnwys disgrifiad o'r prosiect; manylion am bartneriaid a'u rolau; y gynulleidfa darged ac unrhyw amcanion; cynllun gwerthuso; cyllideb ac amserlen i'r rhaglen; a datganiad o'r cyllid y gwnaed cais amdano.

## Cyflwyno'r cynllun: beth wnaeth ddigwydd

Roedd gan y prosiectau a gefnogwyd hyd yma ystod eang o amcanion a chanlyniadau arfaethedig. Rhoddir crynodeb o bob un o'r prosiectau isod.

Cariad Interactive (dyfarnwyd £4,860 iddynt)

Cyllid tuag at brosiect Ymchwil a Datblygu i ddatblygu Enfys, prosiect celfyddydau a pherfformio rhyngweithiol y gellir amrywio ei faint, wedi ei anelu at blant meithrin a theuluoedd. Nod cyffredinol y prosiect oedd cynhyrchu perfformiadau ar y cyd rhwng cyfoedion, staff y blynyddoedd cynnar a theuluoedd, drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y partneriaid yn cynnwys Mudiad Ysgolion Meithrin (sefydliad gwirfoddol sy'n ceisio rhoi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa o wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg), a'r Eisteddfod Genedlaethol a oedd yn ei hanfod yn lleoliad i'r perfformiad.

Celfogwmpas, Llandrindod (dyfarnwyd £8,500 iddynt)

Prosiect Ymchwil a Datblygu i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu prosiect datblygu cynulleidfa am dair blynedd. Gan weithio gyda disgyblion mewn pedair ysgol ym Mhowys (gan gynnwys unedau addysg arbennig), amcanion hirdymor y syniad oedd annog plant a theuluoedd lleol i ymweld ag oriel Celf, ac yn y tymor hir annog cynulleidfaoedd newydd i ymweld ag orielau a chanolfannau celfyddydol eraill yng nghanolbarth Cymru a thu hwnt.

Llantarnam Grange (dyfarnwyd £54,450 iddynt)

Dyfarnwyd cyllid Ymchwil a Datblygu a chyllid Prosiect i Ganolfan Celfyddydau Lantarnam Grange at ei syniad 'Oriel mewn Bocs'. Yn ei hanfod, gweledigaeth y prosiect oedd creu 'oriel' symudol fechan a gofalu am gasgliad o gelf gymhwysol a chelf weledol. Byddai hyn yn cael ei gefnogi gan foth ar-lein o adnoddau a deunydd dehongli, ac a alluogai yr Oriel i ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd newydd a mwy amrywiol ar draws y rhanbarth.

Canolfan Gelfyddydol Pontardawe (dyfarnwyd £24,958 iddynt)

Cefnogaeth i brosiect peilot am flwyddyn sy'n targedu cymunedau dan anfantais yn ac o amgylch Pontardawe. Drwy gyfres o weithdai a rhyngweithiadau, y nod oedd hybu'r Ganolfan Gelfyddydol fel lle defnyddiol a chyfforddus i fod; ehangu ac ymestyn profiadau pobl o'r celfyddydau; ymgysylltu'n weithredol â grwpiau ac unigolion sy'n draddodiadol yn anodd eu cyrraedd ac sydd â lefel isel o ddiddordeb mewn gweithgareddau celfyddydol; hybu gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau; a hyfforddi aelodau allweddol o'r gymuned i'w grymuso a'u cefnogi i reoli gweithgarwch celfyddydol ymroddedig yn eu cymunedau eu hunain.

Redhouse:

Derbyniodd REDHOUSE dau ddyfarniad i brosiectau a oedd yn anelu'n fras i ymgysylltu â grwpiau cymunedol lleol i feithrin perchnogaeth o'r lleoliad newydd ym mlwyddyn ei agoriad a thu hwnt:

- Dinas Ranbarthol – (£36,592) Syniad aml-gelfyddyd yn cynnwys ystod eang o weithgareddau cyfranogol/cymunedol i ddatblygu cynulleidfaoedd ar gyfer *Hen Neuadd y Dref* REDHOUSE. Dyma leoliad celfyddydol newydd yng nghanol Merthyr Tudful a agorwyd i'r cyhoedd ar Ddydd Gŵyl Dewi 2014, yn dilyn rhaglen gyfalaf helaeth o ailddatblygu gwerth £8miliwn gyda chymorth Llywodraeth Cymru, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

- Rhannau Cyfansoddol - (£24,300) Cyflwyniad cyfryngau cymysg i ddathlu lansiad cyhoeddus REDHOUSE o dan gyfarwyddyd creadigol Ian Rowlands, yn cynnwys gwaith celf wedi ei ysbrydoli gan y gymuned o un ar ddeg o wardiau etholiadol Merthyr Tudful, a ffilm fer wedi ei chomisiynu'n arbennig yn cyfeirio at hanes Hen Neuadd y Dref.

Theatr Brycheiniog (dyfarnwyd £49,646 iddynt)

Syniad i ddatblygu cynulleidfaoedd o blant, pobl ifanc a theuluoedd drwy ddefnyddio tafluniadau dŵr digidol y tu allan. Roedd y prosiect yn cynnwys gweithgarwch cyfranogol i gynyddu cynulleidfaoedd ar gyfer y perfformiadau digidol, a chodi ymwybyddiaeth o gelfyddydau digidol fel ffurf ar gelfyddyd. Defnyddiwyd technolegau digidol gan gynnwys codau QR, ffonau symudol, y rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol i gael adborth a 'chipio data' er mwyn cyfarwyddo strategaethau datblygu cynulleidfa'r lleoliad a'i meysydd rhaglennu i'r dyfodol.

Theatr Iolo (dyfarnwyd £17,500 ddynt)

Prosiect Ymchwil a Datblygu dau linyn yn edrych ar sut i i) gyfathrebu'n fwy effeithiol gyda chynulleidfaoedd teuluol – yn cynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol a ii) archwilio'r rhwystrau – yn arbennig trafnidiaeth – i fynychu. Yn y pen draw, gellid targedu'r canfyddiadau at ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda chynulleidfaoedd teuluol, a'u datblygu, a châi'r canfyddiadau eu rhannu ar draws y sector cynhyrchu/cyflwyno.

WOW a Chapter (dyfarnwyd £16,200 iddynt)

Cymorth i brosiect 3 blynedd yn cynnwys dangos ffilmiau i ferched yn unig i gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig mewn partneriaeth â Chanolfan Celfyddydau Chapter, a hefyd drwy ddangosiadau 'naid' mewn cymunedau ddiwylliannol amrywiol ledled Caerdydd. Un o brif amcanion y prosiect oedd ystyried sut y gall lleoliadau a'u cynulleidfaoedd presennol ymgysylltu â chymunedau ehangach ac sydd, hyd yma, wedi ymddieithrio.

## Beth rydym wedi ei ddysgu hyd yn hyn?

### Cynllun â theilyngdod

Mae tystiolaeth y derbynwyr y cyllid yn awgrymu eu bod yn ystyried bod *Ein Lle Ni* yn amserol, yn hyblyg, yn ysgogiad i feddwl yn greadigol, ac yn ffordd i ariannu ymchwil a datblygu mawr ei angen. Mae ei nodweddion nodedig – canllawiau agored, dim ffurflen gais, dim dyddiadau cau, dim cyllideb wedi ei gosod, dim canlyniadau wedi eu penderfynu'n barod – wedi ei galluogi i gyflawni blaenoriaethau Cyngor y Celfyddydau ei hun, a'r rhai a oedd yn derbyn cyllid.

Ar yr ochr gadarnhaol, roedd y rhai a dderbyniodd gyllid yn rhoi croeso cynnes i fformat anarferol cynllun *Ein Lle Ni*:

- "Chwa o awyr iach oedd gallu ysgrifennu eich ffurflen gais eich hun, heb gael eich cyfyngu gan ganllawiau llym."
- "Cynllun sy'n caniatáu archwilio heb ganlyniadau gorfodol."
- "Ni welais erioed broses ymgeisio mor hawdd na mor syml."
- "Roedd yn freuddwyd! Nid oedd yn rhaid plygu'r prosiect i ffitio'r cynllun."
- "Roedd yn bwysig gallu bod yn agored a rhydd, a heb gael popeth wedi eu gosod o'r dechrau."
- "Roedd peidio â chael ffurflen gais yn her – roedd yn ei gwneud hi'n broses gydweithredol, gyda llawer mwy o ddadlau a oedd yn croesi holl feysydd y staff".

Fel y dywedodd un derbynnydd cyllid: *"Cafodd Cyngor Celfyddydau Cymru hi'n berffaith gywir – annog sefydliadau i fynd i'r afael â'r un pennawd ond mewn ffyrdd cwbl wahanol. Mae'n caniatáu i Gyngor Celfyddydau Cymru arwain yn hytrach na chyfarwyddo, a chymell yn hytrach na gofyn."*

### Amrywiaeth o ymagweddau yn cynnig amrywiaeth o syniadau

Roedd yr amrywiaeth yng nghefndiroedd y derbynwyr cyllid, natur eu prosiectau, a'u dehongliad o'r fath gysyniadau ag 'anodd eu cyrraedd' a 'datblygu cynulleidfa' yn cynnig amrywiaeth gyfoethog o ymagweddau gwahanol.

Roedd y rhain yn cynnwys:

- cwmni theatr i blant; tair canolfan celfyddydau gweledol; tîm ymchwil a datblygu meddalwedd; lleoliad celfyddydau perfformio; gŵyl ffilmiau; a chanolfan ddiwylliannol newydd.

- prosiectau celfyddydau gweledol cyfranogol; ymchwil i agweddau a rhwystrau teithio; 'oriel mewn bocs' ac adnoddau cysylltiedig ar-lein; perfformiad awyr agored yn cael ei ddarlledu ar-lein; gwaith gydag ysgolion a grwpiau cymunedol.
- diffiniad o'r celfyddydau a oedd yn cynnwys technoleg cerdd a chynhyrchu digidol; adeiladu pontydd gyda phobl sy'n ystyried eu bod ar ymylon cymdeithas ac sydd ag ychydig neu ddim profiad uniongyrchol o unrhyw ddiwylliant neu adloniant.
- prosiectau yn cymryd lle mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd.

Galluogodd natur mwy penagored y Rhaglen inni edrych ar rai prosiectau mwy anghonfensiynol.

*Astudiaeth Achos: Going out on a limb – Cariad Interactive ac 'Enfys.*

Ar bapur, roedd hwn i'w weld yn brosiect cerdyn gwyllt, gan nad oedd yn cynnwys sefydliad celfyddydol confensiynol, nac artistiaid proffesiynol. Ond gall eto fod yn un o brosiectau mwyaf dylanwadol *Ein Lle Ni*. Roedd y bartneriaeth a oedd eisoes yn bodoli rhwng Cariad Interactive, fel cwmni datblygu TG annibynnol, a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd yn golygu nad oedd angen talu am arbenigedd. Yn yr un modd, sicrhaodd y cysylltiadau a oedd eisoes yn bodoli â Mudiad Ysgolion Meithrin a'r Eisteddfod Genedlaethol y byddai gan y prosiect gyfleoedd ymarferol yn syth. Yn fwyaf pwysig, roedd gwaith blaenorol Cariad Interactive gyda Raspberry Pi, yn golygu bod posibilrwydd i'r meddalwedd newydd gael ei chyflwyno'n fasnachol drwy'r rhaglen honno.

Mae hyn oll yn amlwg yn ddefnydd da o grant datblygu cymharol fach, ond gellid gofyn: beth sydd gan hyn i'w wneud â datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer y celfyddydau? Mae'r canfyddiadau cychwynnol, o'u hystyried ar y cyd â gwaith arall y mae'r tîm wedi ymwneud ag ef, yn dechrau cynnig dealltwriaeth wrthrychol ar sail ymchwil o bwysigrwydd sylfaenol perfformiad i'r unigolyn, ac o ddiffinio synnwyr rhywun o'u hunaniaeth drwy'r ffordd y mae'n rhyngweithio a'r amgylchedd; boed hynny'n blant meithrin yn defnyddio meddalwedd Enfys, neu blant yn eu harddegau ar lwyfan yn cymryd rhan mewn perfformiad Clwb Ffermwyr Ifanc y luniwyd ganddynt hwy eu hunain. Gall hefyd helpu i ddatblygu dealltwriaeth gyfoethocach o beth y mae'n golygu i fod yn aelod o'r gynulleidfa mewn perfformiad byw, a sut y gall mynd ati'n feddyliol i efelychu gweithrediadau corfforol ac emosiynol ar lwyfan olygu bod cynulleidfaoedd yn bell o fod yn oddefol.

O ganlyniad i fuddsoddiad *Ein Lle Ni*, yr uchelgais yn y pen draw yw creu meddalwedd sydd o fantais i leoliadau blynyddoedd cynnar sydd yn brin o adnoddau, gan gynnig technolegau fforddiadwy hawdd eu defnyddio i rai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

## Mae Ymchwil a Datblygu yn talu ffordd

Mae'r posibilrwydd i wneud cais am grant Ymchwil a Datblygu cychwynnol cyn dechrau ar brosiect llawn wedi ei groesawu, ac mae'n effeithiol. Ymhlith y sefydliadau a gafodd gyllid Ymchwil a Datblygu, bu i'r canlyniadau mewn rhai achosion wella ansawdd y canlyniadau a chynnig gwell gwerth gwell am arian.

> ***Astudiaeth Achos:*** *Cymryd amser—Canolfan y Celfyddydau Llantarnam Grange*
>
> Llantarnam Grange oedd yr unig ymgeisydd hyd yma i gael cyllid ymchwil a datblygu, a chyfnod chyflenwi (roedd y cyfnod cyflenwi'n cychwyn wrth i'r ddogfen hon gael ei pharatoi).
>
> Mewn cyfweliad, pwysleisiodd Cyfarwyddwr y Ganolfan gymaint yr oedd yn gwerthfawrogi'r diffyg dyddiadau cau yn nghynllun *Ein Lle Ni*, gan ei fod yn caniatáu mwy o amser i gynnal trafodaeth a chynllunio yn fewnol, a mwy o gyfle i gynnwys aelodau eraill y tîm. Roedd y cyfnod Ymchwil a Datblygu wedyn yn caniatáu amser ac adnoddau i lyfnhau manylion y syniad a rhoi cynnig arno. Mae'r prosiect fel y mae'n cael ei gyflenwi bellach wedi newid cryn dipyn ers y cais gwreiddiol. Cafodd maint y prosiect ei leihau i lefel sy'n fwy ymarferol. Mae'r partneriaid yn gwybod beth sydd i'w ddisgwyl ganddynt. Ac yn bwysicach, mae mwy o bwyslais mwy annibynnol ar elfen ar-lein y prosiect.
>
> O ganlyniad i fuddsoddiad *Ein Lle Ni*, roedd Llantarnam Grange yn gallu sicrhau bod eu syniad i gynyddu cynulleidfaoedd yn berthnasol i anghenion ei chymunedau lleol. Gellid dadlau bod addasu'r syniadau cychwynnol yn gynnil i gwrdd â heriau go iawn wedi sicrhau'r posibilrwydd i gael canlyniadau gwell – a mwy perthnasol – i bawb sy'n ymwneud â'r prosiect.

## Mae partneriaeth wedi bod yn nodwedd allweddol mewn prosiectau

Roedd canllawiau'r rhaglen yn rhoi pwyslais mawr ar gydweithrediad a phartneriaeth greadigol, a bu'r rhain yn ganolog i'r rhan fwyaf o'r prosiectau. Amrywiodd natur datblygiad y bartneriaeth a welwyd o ran math a maint. Fodd bynnag, gellid ei disgrifio'n fras fel hyn:

- datblygu partneriaeth hirhoedlog sydd wedi creu cynghrair o gefnogaeth, gan wneud cysyniad y prosiect yn ymarferol (WOW a Chapter, Cariad Interactive a Metropolitan Caerdydd)
- cymryd amser i ganfod y partneriaid celfyddydol perthnasol a fyddai'n rhannu manteision y prosiect (Brycheiniog a Galeri,  Celf ac Oriel Davies)
- trefnu'r sgiliau cywir sydd eu hangen er mwyn i'r prosiect lwyddo (Redhouse a Kartoon Kings, Brycheiniog a Fallon Films)

- dod â phartneriaid ynghyd y byddent eu hunain yn ffordd i gyrraedd at gynulleidfaoedd newydd ac ymgysylltu â hwy (Celf ac Ysgol Gynradd Trefonnen, Cariad Interactive a'r Mudiad Meithrin).

Mewn un achos (Canolfan y Celfyddydau Pontardawe), nodwyd y partneriaid ar ôl i gyllid y prosiect gael ei gadarnhau.

Arloesedd yn erbyn y cyfarwydd

Rhoddai ein Canllawiau bwyslais penodol ar 'ffyrdd newydd o weithio', 'syniadau newydd', 'syniadau sy'n newydd ac yn gyffrous', rhaglenni datblygu arloesol' ac ati. Awgrymwyd y gallai'r ffocws hwn ar y newydd, sydd bron yn ddidrugaredd, fod wedi digalonni llawer o ymgeiswyr posibl. Dyma osodiad sy'n gyrru at wraidd egwyddorion *Ein Lle Ni*. Mae felly'n haeddu ystyriaeth ofalus.

Mae'n glir bod nifer o'r prosiectau mwyaf llwyddiannus wedi cael eu hadeiladu ar bartneriaethau hirhoedlog, cynyrchiadau presennol, ac/neu'n rhoi tro newydd i fodelau cyfarwydd. Mae gwerthusiad Kirkhill Assosciates felly yn dadlau'n gryf y dylid rhoi blaenoriaeth i 'effeithiol' dros 'arloesol'.

Mae Kirkhill yn nodi bod y gair 'arloesol' yn ymddangos bedair gwaith yng Nghanllawiau presennol y cynllun, ac nad yw'r gair 'effeithiol' yn ymddangos o gwbl. Maent yn awgrymu bod rhai o brosiectau mwyaf llwyddiannus *Ein Lle Ni* – dangosiadau Gŵyl Ffilmiau WOW; 'Oriel mewn Bocs' Llantarnam Grange; gwaith Celf gydag ysgol leol; digwyddiad awyr agored Brycheiniog – wedi bod yn llwyddiannus yn union am eu bod yn ymwneud â'r effeithiol, ac am iddynt ddefnyddio modelau a ymagweddau cyfarwydd wedi eu rheoli'n dda. Y pwynt rhesymol a wneir yw bod llawer o brofiad o'r radd flaenaf yn bodoli ymysg cleientiaid Cyngor y Celfyddydau ac y dylid gwneud mwy, drwy gynlluniau fel hyn, i sicrhau fbd y fath arbenigedd yn cael ei rannu a'i ddatblygu, yn hytrach na phwyso ar sefydliadau i fod yn arloesol o hyd.

Astudiaeth Achos 'Arloesol' yn erbyn 'Effeithiol' – Gŵyl Ffilm WOW a Chapter

Ar yr wyneb, nid oedd elfennau ymarferol y cais gan Ŵyl Ffilmiau WOW a Chapter yn hynod o arloesol: dangosiadau wedi'u targedu, a 'sinema naid'. Ond mae'n ymddangos mai'r hyn a wnaeth y prosiect yn llwyddiannus, ac yn fodel trosglwyddadwy posibl, yw'r gofal a'r cynllunio a oedd y tu ôl i'w wireddu'n effeithiol.

Arweiniwyd y prosiect gan gydlynydd profiadol gyda chysylltiadau da, a gwnaed pob ymdrech i wneud y dangosiadau yn y Chapter yn gyfeillgar a chynhwysol, gan gynnwys croeso wrth y drws, cyfleusterau meithrinfa, te a choffi, a dadl ar ôl pob ffilm.

Hynny yw, roedd yn brofiad cyfannol wedi ei baratoi'n ofalus i roi synnwyr o 'berchnogaeth' yn y lleoliad ymysg y rhai sydd leiaf tebygol fel arall i fod â'r fath synnwyr.

Yn yr un modd, nid dangosiad ffilm yn unig oedd digwyddiad y 'sinema naid', ond dathliad ehangach o 'Bollywood', gan gynnwys bwyd a cherddoriaeth fyw. Nid oes amheuaeth bod y fath ymagwedd yn galw am lawer o adnoddau, ac felly'n anodd ei chynnal ond, o'r dystiolaeth sydd ar gael, mae ei effaith wedi rhagori ar ddisgwyliadau – nid yn unig o ran rhifau, ond yn bwysicach fyth, yn nhermau cymysgedd demograffig, economaidd-gymdeithasol, ethnig a diwylliannol.

O ganlyniad i fuddsoddiad *Ein Lle Ni*, roedd Chapter a WOW yn gallu creu lle pwrpasol i ferched o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig i weld ffilmiau cyfoes. Mae agor y drysau i ddarpariaeth ddiwylliannol yn y ffordd yma wedi arwain at ddefnydd ehangach o Chapter y tu allan i'w gweithgareddau craidd, ac i rai y tu hwnt i'w chynulleidfa graidd.

Derbyniwn effeithiolrwydd gwerthusiad Kirkhill Associates. Dadleua Kirkhill, â chryn argyhoeddiad, y bydd defnyddio modelau ac ymagweddau cyfarwydd yn effeithiol yn aml yn drech nag 'arloesedd' drwy ddarparu sylfaen sicrach i gynnal cyswllt â chynulleidfaoedd newydd, eu hannog i fod â'r 'arfer' o gelf, a chwalu'r rhwystrau ffisegol ac ymddangosiadol sy'n gysylltiedig ag arwahanrwydd cymdeithasol. Byddem hefyd yn cytuno â dadl Kirhill y dylid rhoi pwysigrwydd priodol i gyflwyno strategaethau a chanlyniadau 'effeithiol'.

Mae'r dadansoddiad hwn yn codi llawer o faterion diddorol.

Byddem yn derbyn y dylai buddsoddi mwy o amser, ymdrech ac arian mewn strategaethau cyfarwydd – yn rhesymegol – arwain at ganlyniadau sy'n gymesur well. Ond os yw cyflawni'r gwelliant hwn yn dibynnu'n unig ar gynnydd mewn cymhorthdal, y mae perygl y bydd y dull yn datblygu i fod yn hunan-gyfyngedig ar adeg pan fo arian nawdd cyhoeddus yn lleihau.

O ystyried natur beilot y rhaglen hon, nid ydym yn barod eto i roi'r gorau yn gyfan gwbl ar y manteision posibl sydd i ystyried syniadau arloesol a newydd. O wasg argraffu Guttenberg i drin 'data mawr', dros ganrifoedd lawer mae technoleg wedi cynnig ffyrdd newydd i gyflawni canlyniadau gwell ar gostau rhatach. Er enghraifft, y ffordd gyfarwydd lwyddiannus o weithgynhyrchu car modur fu'r llinell gydosod draddodiadol, ac roedd cynhyrchiant y broses yn dibynnu'n helaeth ar nifer y bobl a ddefnyddiwyd. Y dyddiau hyn, mae'r rhan fwyaf o linellau cydosod yn awtomatig a phrin iawn yw'r gwaith a wneir gan bobl. A phe na byddai archfarchnadoedd yn arbrofi ac arloesi gyda'r cynnyrch a gynigant, ni fyddai cynhwysion a arferai fod yn 'egsotig' fel *crème fraiche* a ffrwyth ciwi wedi datblygu i fod yn gynnyrch mor gyfarwydd yn ein diet heddiw!

I ryw raddau, yr hyn mae *Ein Lle Ni* yn hybu mewn gwirionedd yw ymagwedd ddeallus a chytbwys at gymryd risg.

Mae bod yn greadigol weithiau yn gofyn inni gymryd risgiau. Felly ni ddylai fod ofn arnom, pan fo'r amser yn iawn, i gymryd ychydig o risgiau. Nid ar hap a damwain nac yn anghyfrifol, ond yn ymwybodol a hyderus, gan ddefnyddio ein greddfau, ein gwybodaeth a'n harbenigedd gorau. Oherwydd pe gwthiwn y tu hwnt i'n mannau cyfforddus,

cyfarwydd, yn llawn dewrder a chwilfrydedd, y mae'n bosib y gallwn roi gwell ffocws ar ffyrdd i weithio sy'n wahanol ac yn heriol, gyda chelf sydd efallai'n fwy diddorol i'r union gynulleidfaoedd yr ydym yn ceisio eu cyrraedd.

## Galluogi sgwrs a chyfnewid

Wrth sefydlu *Ein Lle Ni* dewisom beidio â chymryd yn ganiataol nac awgrymu ein bod yn gwybod beth fyddai'r ffyrdd gorau i gyflawni ein hamcanion strategol ein hunain. Yn lle hynny, roeddem eisiau hybu sgwrs rhyngom ni a'n cleientiaid a datganoli i'r cleientiaid hynny y cyfle i ddatblygu'r prosiectau mwyaf addas a phriodol yn eu cyd-destun eu hunain.

## Cymryd rhan yn uniongyrchol

Dangosodd *Ein Lle Ni* nad oes dim yn well na chyfleoedd lle mae staff yn gweithio yn unionyrchol gyda'r grwpiau a'r cymunedau y maent yn dymuno cynnal cyswllt â hwy. Mae dau ganlyniad pwysig i hyn. Yn gyntaf, mae'r fath waith yn cymryd amser, nid yw'n 'ateb cyflym'. Yn ail, gall gwariant adnoddau ymddangos yn anghymesur i wir nifer y cyfranogwyr a'r buddiolwyr, wrth fesur canlyniadau yn nhermau ystadegol yn unig. Mae cyd-destun, felly, yn dra phwysig wrth werthuso effaith y prosiectau hyn.

Efallai bod gwir nifer y merched a aeth i ddigwyddiadau ffilmiau WOW yn fach, ond mae amrywiaeth eu cefndiroedd cymdeithasol-economaidd a diwylliannol yn adrodd cyfrolau. Ar y cam hwn, anodd yw amcangyfrif beth fydd effaith ehangach y digwyddiadau llwyddiannus hyn dros amser. Dyma faes lle mae mesurau meddal yn bwysig, lle mae ymatebion unigolion, neu grwpiau bach, yn allweddol i asesu effeithiau hirdymor y prosiect.

*Astudiaeth Achos: Cromlin Ddysgu Serth – Canolfan y Celfyddydau Pontardawe*

Mae'r tîm ym Mhontardawe wedi cael profiad go heriol. Ond maent wedi bod yn hynod o agored a gonest am yr anawsterau y maent wedi eu hwynebu, a sut maent wedi dysgu oddi wrth hyn i newid, neu'n wir i drawsffurfio eu hymagwedd sylfaenol. Dylid eu canmol am lynu wrth eu cysyniad gwreiddiol, a bod *Ein Lle Ni* wedi gallu eu cefnogi wrth wneud, a'r canlyniad yw bod y prosiect bellach yn dechrau cyflawni canlyniadau sy'n wirioneddol werthfawr.

Maent wedi dysgu gwersi pwysig a throsglwyddadwy. Peidiwch â drysu defnyddwyr posibl drwy gynnig gormod o ddewis. Peidiwch â dibrisio'r hyn rydych yn ei gynnig drwy ei roi am ddim neu dan bris, oni bai eich bod yn dweud yn glir sut a pham y mae'r cynnig wedi'i gynorthwyo. Peidiwch â dibynnu ar weithwyr allanol llawrydd i wneud y cysylltiadau ar eich rhan – torchwch eich llewys a gwnewch hynny eich hun.

O ganlyniad i fuddsoddiad *Ein Lle Ni*, mae'n bosibl dadlau bod Canolfan y Celfyddydau Pontardawe bellach yn sefydliad cryfach, sydd â mwy o ffocws a gwell cysylltiadau o ganlyniad i'r profiad hwn. Ac y bydd y model sydd bellach ganddynt yn ei le yn dod yn rhan greiddiol o raglen y Ganolfan.

## Gwneud ymrwymiad fel sefydliad cyfan

Mae'n bwysig bod prosiectau yn cynnwys ystod mor eang â phosibl o staff a gwirfoddolwyr y sefydliad ei hun. Er enghraifft, mae prosiect Redhouse yn dangos y problemau sy'n codi pan nad yw hyn yn digwydd. Yn y pen draw, dylai prosiect llwyddiannus weld newid mawr yn ethos a gweithrediadau creiddiol y sefydliad. Felly mae'n rhaid sicrhau y caiff ystod mor eang â phosibl o bobl eu cynnwys o'r cychwyn.

Er hynny, gan fod y fath brosiectau yn dibynnu'n drwm ar sgiliau a phrofiadau blaenorol unigolion neu bartneriaid allweddol, maent yn fregus yn wyneb ffactorau allanol – fel salwch, staff allweddol yn gadael, neu brosiectau eraill yn cael blaenoriaeth (er enghraifft, prosiect wedi ei ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd a fu'n galw am lawer mwy o amser na'r disgwyl). Gallai hyn olygu y bydd angen i'r derbyniwr grant a Chyngor y Celfyddydau dderbyn lefelau uwch o risg.

*Astudiaeth Achos: Sicrhau gwaddol – Dau brosiect Redhouse*

Y lleoliad newydd, Redhouse, yng nghanol Merthyr Tudful, oedd yr unig sefydliad i dderbyn dau ddyfarniad *Ein Lle Ni*. Yn ogystal, roedd agor Redhouse yn gynharach yn 2014 yn ddigwyddiad amlwg, gan adfywio hen adfail hanesyddol, gyda chymorth cyllid adfywio sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Roedd gan brosiect Redhouse atyniadau penodol – roedd yn gyfleuster 'newydd' mewn ardal o amddifadedd amlwg. Ac roedd y prosiect adnewyddu yn gyffredinol yn cael ei reoli y tu all i sector traddodiadol y celfyddydau (Cymdeithas Dai yn yr achos hwn). Roedd felly'n cynnig nifer o bosibiliadau i ddysgu gwersi newydd.

Fodd bynnag, roedd aelod y staff a oedd yn gyfrifol am lunio'r ddau brosiect, gwneud ceisiadau i *Ein Lle Ni* ac wedyn goruchwylio'r gwaith o'u cyflawni, wedi gadael y sefydliad ym mis Mawrth 2014. Roedd gweddill aelodau staff Redhouse mor gynorthwyol â phosibl dan yr amgylchiadau, ond ni fu'r un ohonynt yn ymwneud yn agos â chyflawni'r naill brosiect na'r llall.

Nid oes amheuaeth y bu nifer o grwpiau cymunedol lleol ynghlwm wrth gyflawni'r ddau brosiect. Ond heb holi grwpiau o'r fath yn uniongyrchol, mae'n amhosibl gwybod yn union pa rai ohonynt oedd yn rhoi mynediad i'r rhai 'anodd eu cyrraedd', pa effaith mae eu gwaith hwy wedi cael, a ph'un a yw hyn wedi arwain at unrhyw gyswllt hirdymor â Redhouse neu gymorth i'r lleoliad.

Y mae'n amlwg bod Redhouse yn ystyried y ddau brosiect yn gyfranwyr pwysig i'r broses o lansio'r adeilad ar ei newydd wedd. Ond mae hynny'n codi'r cwestiwn p'un a ddylai'r fath weithgarwch fod wedi eu cynnwys yng nghyllidebau craidd Redhouse.

## Cynorthwyo'r arfer o reoli newid

Cyfeiriodd dau dderbynnydd cyllid at y cyfle a ddaeth yn sgil rhaglen *Ein Lle Ni* i fynd i'r afael â heriau strategol ehangach yr oeddent yn ceisio eu goresgyn. Yn yr achosion hyn, bu

buddsoddiad *Ein Lle Ni* yn ddylanwadol wrth gynorthwyo'r broses newid a throsglwyddo'n gyflymach i ffyrdd newydd o weithio.

***Astudiaeth Achos:*** *Ffyrdd newydd o weithio – Theatr Iolo*

Roedd Theatr Iolo yn un o bum cwmni theatr i blant a ganfu ei hun, o ganlyniad i Arolwg Buddsoddiad 2010 Cyngor Celfyddydau Cymru, yn gweithio'n genedlaethol a chyda lleoliadau celfyddydol. Gweithio'n rhanbarthol fu'r cwmni cyn hynny, gan gyflenwi'n uniongyrchol drwy weithio gydag ysgolion.

Nid oedd y cwmnïau hyn yn gyfarwydd â gweithio gyda lleoliadau. Hyd hynny, nid oedd y lleoliadau wedi cynnwys y fath waith yn eu rhaglenni, ac roedd angen i gynulleidfaoedd ddod i'r arfer â'r syniad bod y fath waith ar gael mewn lleoliadau fel hyn bellach, ac y gellid cael mynediad iddynt y tu allan i'r ysgol (ar benwythnosau, er enghraifft).

O ganlyniad i fuddsoddiad *Ein Lle Ni*, cynigwyd cyfle amserol a hynod o berthnasol i Theatr Iolo i ymgymryd ag ymchwil ymarferol i sut roedd teuluoedd yn defnyddio cyfryngau digidol i gael gwybod am weithgareddau hamdden, a'u dewis, a sut orau, felly i ddwyn eu sylw at waith Theatr Iolo.

Mae ail ran yr ymchwil yn ystyried sut orau i oresgyn rhwystrau trafnidiaeth sydd wedyn yn wynebu'r teuluoedd er mwyn mynd i leoliad celfyddydol, yn hytrach na bod y perfformwyr yn dod i'w hysgol leol.

Yn achos Celf, yr her strategol oedd sefydlu'r oriel mewn cartref newydd.

***Astudiaeth Achos:*** *Datrys problemau – Celf, Llandrindod*

I'r Oriel Gelf, roedd cynllun *Ein Lle Ni* yn amserol iawn, er mwyn helpu i fynd i'r afael â mater o wir bwys, sef sicrhau bod cartref newydd yr oriel yn weledol wrth iddo symud o leoliad amlwg ar y stryd i le sydd, er yn well mewn llawer o ffordd eraill, wedi ei guddio mewn adeilad mwy. Fel llawer o sefydliadau celfyddydol eraill, dim ond drwy Gyngor y Celfyddydau y gall Celf gael mynediad at gyllid prosiect. Ac mae cap o £30,000 ar y swm a all dderbyn o gronfeydd y Loteri mewn unrhyw flwyddyn. Drwy ddenu cyllid o gronfa ar wahân i'r Loteri, roedd *Ein Lle Ni* yn cynnig y posibilrwydd i Celf fynd i'r afael â'r mater heb orfod lleihau'r swm a ddyfarnwyd iddi ar gyfer ei rhaglen graidd.

Ond cychwyn y daith yn unig oedd hynny. Mae Celf yn ceisio cysylltu â'r rhai sydd wirioneddol yn anodd eu cyrraedd. Hynny yw, y rhai hynny sydd a'u hamgylchiadau yn golygu nad oes ganddynt gyswllt celfyddydol o unrhyw fath. Maent o'r farn mai'r unig ffordd i wneud hynn yw drwy'r ysgol leol, yr un lle ble mae holl elfennau'r gymuned leol yn cymysgu. Ond mae'r ysgol ei hun yn newydd, ac nid yw'n gyfarwydd o gwbl â

gweithio gyda sefydliad celfyddydol. Ar ben hynny, maent yn gweithio mewn partneriaeth ag Oriel Davies yn y Drenewydd, lle y bu i'w Swyddog Addysg orfod rhoi'r gorau iddi ar adeg allweddol. Dim ond yn awr, felly, y mae'r prosiect yn bwrw yn ei flaen go iawn.

Ond o safbwynt Ysgol Gynradd Trefonnen, mae'r rhaglen eisoes yn talu ffordd. Hyd yn oed ar ôl un gyfres o weithdai yn unig, roedd un athro yn pwysleisio effaith gadarnhaol ar grŵp go heriol o ddisgyblion Blwyddyn 5/6 sydd, gyda 32 o ddisgyblion, yn golygu ei bod yn anodd gwneud gwaith celf ymarferol yn yr ysgol. Ymatebodd y disgyblion yn gadarnhaol iawn i'r amgylchedd gwahanol, ac i'r cyfle i fod yn greadigol mewn cyd-destun gwahanol.

Y disgyblion anoddaf a gafodd y budd mwyaf, ac yn sgil hynny roedd yr amgylchedd yn well i weddill y dosbarth. Ni fyddai'r ysgol wedi meddwl am y fath fodel ar ei phen ei hun, heb ddulliau Celf. Ac nid oes gan yr ysgol ei chyllid ei hun i dalu am arbenigwr allanol, na darparu cludiant i ganolfannau pellach.

## Mathau gwahanol o le

Un o'r materion y cyfeiriwyd atynt yn nadansoddiad Kirkhill Associates oedd y cysyniad o 'Drydydd Lleoedd' http://en.wikipedia.org/wiki/Third_place fel llefydd niwtral lle mae pobl yn ymgynnull a rhyngweithio.

Mae'n ddiddorol, felly, er na ddefnyddiwyd y term ei hun, bod llawer o brosiectau *Ein Lle Ni* wedi'u hanelu'n benodol at wella ansawdd 'Trydydd Lle' eu lleoliadau: WOW a Chapter drwy greu awyrgylch croesawgar; Llantarnam Grange drwy waith allgymorth ffisegol ac ar-lein; Celf drwy weithio gydag ysgol leol; a Chanolfan y Celfyddydau Pontardawe a Redhouse drwy estyn allan at grwpiau cymunedol penodol. Mae'r gwersi sydd i'w dysgu o brosiectau *Ein Lle Ni*, felly, yn cyfrannu at ddadl llawer ehangach am ran lleoliadau celfyddydol a diwylliannol yn eu cymunedau.

## Ffactorau allanol

Wrth fynd i'r afael â'r rhwystrau i fynychu, canfu sawl prosiect mai ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth y lleoliad oedd yn aml yn sail iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys p'un a oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael a'r gost; y gost i ddisgyblion unigol fynd ar dripiau ysgol; y lleihad sylweddol sydd mewn cyfleoedd dysgu gydol oes ('dosbarthiadau nos') a'u costau cynyddol.

Awgryma hyn y gallai fod dadl ehangach dros ddarparu mathau eraill o gymorth neu gymhorthdal –rhyw fath o drefniant i gludo grwpiau; cydweithio gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus (ym maes iechyd, gofal cymdeithasol neu sectorau eraill); neu drwy ddulliau eraill o alluogi gwell hygyrchedd ffisegol. Efallai bod angen hefyd am fwy o ymchwil i'r erydu a fu i gyfleoedd dysgu gydol oes, a'r pwysau y gallai hyn fod yn ei roi ar leoliadau celfyddydol i 'lenwi'r bwlch'.

### Cyfleoedd a chanlyniadau posibl i'r dyfodol

Mae rhai derbynwyr cyllid wedi nodi'r posibilrwydd i greu incwm yn y dyfodol o ganlyniad i brosiect *Ein Lle Ni*:

- Mae Brycheiniog yn bwriadu edrych ymhellach ar y prosiect peilot llwyddiannus o ffrydio digwyddiad 'Mewn Goleuni Newydd' ar-lein.
- Mae Cariad Interactive mewn trafodaeth am gynnwys meddalwedd 'Enfys' ar feddalwedd poblogaidd Raspberry Pi.
- Mae Llantarnam Grange yn gweld posibilrwydd i ymestyn y systemau codi tâl presennol i gynhyrchu incwm o ysgolion.

***Astudiaeth Achos:*** *Gwneud Sbloets —Theatr Brycheiniog*

Mae gan Theatr Brycheiniog leoliad rhagorol yng nghanol Aberhonddu, ger basn ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu. Nod prosiect *Ein Lle Ni* oedd manteisio ar y lleoliad hwn drwy gynnal digwyddiad a fyddai'n adeiladu cysylltiadau gyda Glandŵr Cymru, gan apelio hefyd at rai nad ydynt efallai'n defnyddio'r theatr ar hyn o bryd, ac edrych ar y posibilrwydd o ffrydio digwyddiadau amlwg, untro o'r fath ar-lein.

Dyma enghraifft werthfawr, felly, o sut y gall digwyddiad untro nad oedd yn greadigaeth wreiddiol, ond i bob pwrpas yn ail-lwyfannu digwyddiad a oedd wedi ei greu'n wreiddiol ar gyfer Gŵyl Latitude, gael ei ddefnyddio fel sylfaen i adeiladu rhwydwaith o bartneriaethau mwy hirdymor. Mae hyn hefyd yn codi proffil lleol a rhanbarthol y lleoliad, yn datblygu ffyrdd i weithio gyda phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), ac yn treialu techneg arloesol o ffrydio ar-lein. Mewn gwirionedd, gellid dadlau ei bod yn hanfodol bod y digwyddiad creiddiol yn un a fodolai eisoes a'i fod wedi hen ennill ei blwyf, i'w alluogi i fod yn sylfaen gadarn i'r fath amrywiaeth o fentrau. Er nad oedd hynny'n nod, roedd y ffaith i'r prosiect fynd ymlaen i dderbyn cydnabyddiaeth i Theatr Brycheiniog yng Ngwobrau Dyfrffyrdd Byw yn fonws sylweddol.

Ond gallai bonws hyd yn oed yn fwy ddod i ran y prosiect. Yn sgil Gwobr Dyfrffyrdd Byw, daeth Cyfarwyddwr Theatr Brycheiniog i gyswllt â chwmni o Denmarc sydd wedi datblygu technoleg darlledu byw a all 'belydru' cynnyrch o/i leoliadau gwahanol ynghyd â gwerthu tocynnau i gynnyrch darlledu byw yn fyd-eang. Gallai hyn fod yn hwb i gynaliadwyedd ehangach lleoliadau, a bydd Theatr Brycheiniog yn ystyried llunio cynnig yn seiliedig ar dreialu'r model yng Nghymru, efallai drwy Creu Cymru neu The Circuit a/neu bartneriaeth arall o leoliadau.

Mae manteision posibl eraill wedi eu nodi:

- Gallai meddalwedd 'Enfys' Cariad Interactive gyfrannu at ddealltwriaeth ddyfnach o bwysigrwydd seicolegol perfformio.
- Gallai gwaith Celf gydag Ysgol Gynradd Trefonnen ddangos sut mae agor llwybr i ffurf an-academaidd o gyrhaeddiad yn gallu mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad sylweddol yn achos disgyblion o gefndiroedd anodd.
- Gallai ymchwil Theatr Brycheiniog i fynediad byw ar-lein arwain at bartneriaeth beilot sydd â'r posibilrwydd i greu incwm i leoliadau a chwmnïau ledled Cymru a thu hwnt.
- Gallai ffocws Llantarnam Grange ar ei ymgysylltiad ar-lein newid y ffordd yr ydym yn meddwl am sut mae cymunedau yn rhyngweithio ag arddangosfeydd.
- Gallai ymchwil Theatr Iolo arwain at ffyrdd ymarferol i wella ymgysylltiad ar-lein â theuluoedd – ledled Cymru ac ar draws ffurfiau ar gelfyddyd.
- Mae gwaith WOW a Chapter yn batrwm i gael menywod o gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig i ymgysylltu'n effeithiol â chynnyrch diwylliannol 'prif ffrwd'.

## Rhai materion pellach i Gyngor Celfyddydau Cymru eu hystyried

### Cynllun â theilyngdod

Mae tystiolaeth y derbynwyr y cyllid yn awgrymu eu bod yn ystyried bod *Ein Lle Ni* yn amserol, yn hyblyg, yn ysgogiad i feddwl yn greadigol, ac yn ffordd i ariannu ymchwil a datblygu mawr ei angen. Mae ei nodweddion nodedig – canllawiau agored, dim ffurflen gais, dim dyddiadau cau, dim cyllideb wedi ei gosod, dim canlyniadau wedi eu penderfynu'n barod – wedi ei galluogi i gyflawni blaenoriaethau Cyngor y Celfyddydau ei hun, a'r rhai a oedd yn derbyn cyllid.

Daeth gwerthusiad Kirkhill Associates o'r rhaglen i'r casgliad hwn:

> *"Ein barn yn gyffredinol yw bod cynllun Ein Lle Ni wedi bod yn ffordd effeithiol i alluogi Cyngor Celfyddydau Cymru i gyflawni canlyniadau sylweddol mewn maes strategol allweddol. Yn ôl y dystiolaeth hyd yma, mae wedi bod yn ddefnydd addas o adnoddau Cyngor Celfyddydau Cymru, ac adnoddau'r derbynwyr cyllid, a dylai fod yn rhan barhaus o bortffolio cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru."*

Mae Kirkhill hefyd yn cynnig cyfres o argymhellion i Gyngor Celfyddydau Cymru eu hystyried fel rhan o'i asesiad ei hun o'r Rhaglen. Dyma grynodeb ohonynt:

- *hyrwyddo'r Rhaglen* – gellid bod wedi cael mwy o gysondeb o ran sut mae ymgeiswyr posibl yn dod i wybod am y cynllun. Eir i'r afael â hyn ar gylchoedd nesaf y Rhaglen.

- *Dylid gwella'r cymorth a'r arweiniad yn y cyfnod ymgeisio* – eto, dylid cael mwy o gysondeb o ran sut mae ymgeiswyr unigol yn cael eu cynghori, cyn iddynt gyflwyno eu cynigion. Eir i'r afael â hyn ar gylchoedd nesaf y Rhaglen.

- *dylid gwella'r cymorth wrth i'r prosiectau gael eu cyflawni* – roedd llawer o'r derbynwyr cyllid yn mentro i feysydd a oedd yn anghyfarwydd iddynt. Hyn oedd hanfod y cynllun, wedi'r cyfan. Hynod ddymunol fyddai darparu rhyw fath o gymorth gyson yng nghyfnod cyflawni'r prosiectau, a byddai hynny hefyd yn dwyn y derbynwyr cyllid unigol at ei gilydd fel carfan i gefnogi'i gilydd.

- Un o'r ffyrdd a awgrymir i gyflawni hyn yw penodi *Animateur* llawrydd. Gallwn weld mantais penodiad o'r fath, ond o ystyried lefel y cyllid cyffredinol sydd ar gael rydym yn gyndyn ar y cam hwn i ddargyfeirio cyllid o wariant uniongyrchol ar y prosiectau eu hunain. Caiff hyn ei adolygu pe caiff maint y rhaglen ei gynyddu. Yn y cyfamser, bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn mynd i'r afael â'r materion hyn ei hun.

- *rheoli grantiau, monitro a gwerthuso prosiectau* – heb danseilio natur hyblyg y cynllun, mae'n ymddangos yn synhwyrol i dynhau rhai agweddau ar reoli'r rhaglen. Yn benodol, mae angen i gymhelliannau priodol fod yn eu lle i sicrhau bod y derbynwyr cyllid yn cynhyrchu gwybodaeth fonitro a gwerthuso yn brydlon. Eir i'r afael â'r materion hyn yn syth.

Mater strategol mwy...

Un o ganlyniadau'r rhaglen beilot na ellir ei osgoi yw bod llwyddiant tebygol y prosiectau yn gwella'n sylweddol drwy gynnal proses Ymchwil a Datblygu ofalus, fesul, gyda chymorth staff priodol. I ryw raddau nid yw hyn yn syndod. Mae'r fath dull yn cael ei ddefnyddio yn rhai o gynlluniau eraill Cyngor Celfyddydau Cymru (y Rhaglen Gyfalaf a Syniadau: Pobl: Llefydd, er enghraifft).

Mae'r canlyniadau a gyflawnir yn y meysydd hyn yn pwysleisio gwerth dulliau mwy ailadroddol a chydweithredol i ddatblygu prosiect. Ac mae hyn yn anochel yn codi'r cwestiwn: os yw'r manteision mor sylweddol, pam nad yw'r fath ddulliau yn cael eu defnyddio yn ehangach ar draws rhaglenni cyllido eraill?

Wrth gwrs, yr ateb syml yw capasiti. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn rheoli tua 1,400 o geisiadau am gyllid bob blwyddyn ac mae'n gwbl amlwg mai amhosibl fyddai cynnig cymorth manwl mewn mwy na chyfran fach o'r achosion hyn. Wedi dweud hynny, y mae materion yma sy'n haeddu ystyriaeth bellach a dylem fod yn barod i edrych yn llawn dychymyg ar ein harferion ein hunain o reoli a chyllido grantiau. Bydd y materion hyn, felly, yn cael eu hystyried gan Gyngor Celfyddydau Cymru fel rhan o'i broses Adolygiad Buddsoddi.